PENDERFYNIAD I GYFYNGU AR GYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A WNEIR O DAN ADRAN 14 O DDEDDF CYMWYSTERAU CYMRU 2015 ("Y Ddeddf")

31 Mawrth 2017

Gwneir y penderfyniad hwn mewn perthynas â'r cymwysterau blaenoriaethol a nodir isod ("y cymwysterau cyfyngedig newydd").

Cyn gwneud y penderfyniad hwn, mae Cymwysterau Cymru, yn unol ag adran 14(7) o'r Ddeddf, wedi hysbysu'r cyfryw bersonau y mae angen eu hysbysu o dan yr adran honno ac wedi ystyried unrhyw gynrychioliadau a wnaed iddo gan y personau hynny.

Mewn perthynas â phob cymhwyster cyfyngedig newydd, mae Cymwysterau Cymru yn fodlon, gan ystyried prif nodau Cymwysterau Cymru a'r amcanion yn is-adran 14(4) o'r Ddeddf, ei bod yn ddymunol i gyfyngu ar nifer y ffurfiau ar y cymhwyster a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru i'r uchafswm a nodir yn y penderfyniad hwn.

Drwy hyn mae Cymwysterau Cymru yn penderfynu mai uchafswm nifer y ffurfiau ar bob cymhwyster cyfyngedig newydd a gymeradwyir gan Gymwysterau Cymru fydd **un**. Bydd Cymwysterau Cymru yn mabwysiadu'r llwybr comisiynu ar gyfer y cymwysterau cyfyngedig newydd.

Bydd y cymwysterau cyfyngedig newydd yn gyfyngedig am gyfnod o **bum mlynedd** o 1 Medi 2019.

Mae'r cymwysterau cyfyngedig newydd fel a ganlyn:

Teitl y Cymhwyster Arfaethedig	**Disgrifiad**
(Lefel 1 /2) Cyflwyniad i Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.	Caiff y cymhwyster hwn ei gyflwyno dros gyfnod o ddwy flynedd. Caiff ei lunio ar gyfer ei gyflwyno mewn ysgolion neu ochr yn ochr â chymwysterau eraill mewn Coleg Addysg Bellach (AB) neu leoliad dysgu seiliedig ar waith. Bydd y cymhwyster hwn yn cyflwyno dysgwyr i ystod eang o rolau yn y sector Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.
(Lefel 2) Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd.	Bydd y cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith, Colegau AB ac Ysgolion o'r cysyniadau allweddol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys egwyddorion a gwerthoedd, iechyd a lles, ymarfer proffesiynol, diogelu ac iechyd a diogelwch. Mae'r cymhwyster hwn yn briodol i ddysgwyr ôl-16.

Teitl y Cymhwyster Arfaethedig	Disgrifiad
(Lefel 2) Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc).	Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i astudio amrywiaeth o bynciau cyd-destunol ac archwilio amrywiaeth o lwybrau cyflogaeth. Caiff y cymhwyster ei lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16.
(Lefel 2) Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion).	Bydd y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer yn asesu gwybodaeth a chymhwysedd dysgwyr. Caiff y cymhwyster ei lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n gweithio (dysgu seiliedig ar waith) neu'n astudio'n llawn amser mewn Coleg AB. Bydd y cymhwyster yn asesu agweddau ar wybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy waith/lleoliad gwaith.
(Lefel 2) Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Craidd.	Bydd y cymhwyster hwn yn rhoi dealltwriaeth i ddysgwyr o'r cysyniadau allweddol ym maes Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae, gan gynnwys egwyddorion a gwerthoedd, iechyd a lles, ymarfer proffesiynol, diogelu ac iechyd a diogelwch. Caiff y cymhwyster hwn ei lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16.
(Lefel 2) Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Egwyddorion a Chyd-destunau	Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i astudio amrywiaeth o bynciau cyd-destunol ac archwilio amrywiaeth o lwybrau cyflogaeth. Caiff y cymhwyster ei lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n astudio mewn Coleg AB.
(Lefel 2) Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Ymarfer.	Bydd y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n gweithio neu'n astudio'n llawn amser mewn Coleg AB. Bydd y cymhwyster yn asesu agweddau ar wybodaeth ac ymarfer dysgwyr drwy waith/lleoliad gwaith.
(Lefel 3) Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion).	Bydd y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer yn asesu ymarfer a gwybodaeth dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n gweithio mewn lleoliad perthnasol sy'n canolbwyntio ar oedolion, a gellir ei ddarparu drwy leoliadau dysgu seiliedig ar waith a Cholegau AB.
(Lefel 3) Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc).	Bydd y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer yn asesu ymarfer a gwybodaeth dysgwyr. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16 sy'n gweithio mewn lleoliad perthnasol sy'n canolbwyntio ar oedolion, a gellir ei ddarparu drwy leoliadau dysgu seiliedig ar waith a Cholegau AB.

Teitl y Cymhwyster Arfaethedig	Disgrifiad
(Lefel 3) Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau (Oedolion, Plant a Phobl Ifanc).	Bydd y cymhwyster hwn, a gaiff ei lunio ar gyfer dysgwyr mewn Ysgolion a Cholegau AB, ar gael mewn tri maint. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16.
(Lefel 3) Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Egwyddorion, Damcaniaethau ac Ymarfer.	Bydd y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer yn asesu gwybodaeth ac ymarfer dysgwyr. Bydd y cymhwyster hwn, sydd wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr mewn Ysgolion, Colegau AB a lleoliadau dysgu seiliedig ar waith, ar gael mewn tri maint. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16.
(Lefel 3) Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Ymarfer.	Bydd y cymhwyster hwn yn seiliedig ar ymarfer. Caiff y cymhwyster hwn ei lunio ar gyfer dysgwyr mewn lleoliadau dysgu seiliedig ar waith neu Golegau AB sy'n ymgymryd â lleoliadau gwaith. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-16.
(Lefel 4) Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda llwybrau arbenigol.	Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer ei lunio ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu arbenigo mewn maes iechyd a gofal cymdeithasol penodol. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-19.
(Lefel 4) Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau.	Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar wybodaeth ei lunio ar gyfer dysgwyr ôl-19 sy'n bwriadu symud ymlaen i rolau rheoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio fel cymhwyster 'cam pontio' i ddysgwyr.
(Lefel 4) Arwain a Rheoli Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Egwyddorion, Damcaniaethau a Chyd-destunau.	Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar wybodaeth ei lunio ar gyfer dysgwyr ôl-19 sy'n bwriadu symud ymlaen i rolau rheoli yn y sector Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio fel cymhwyster 'cam pontio' i ddysgwyr.
(Lefel 4) Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae gyda llwybrau arbenigol.	Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer ei lunio ar gyfer dysgwyr sy'n bwriadu arbenigo mewn maes gofal plant, dysgu, datblygu a chwarae penodol. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-19.
(Lefel 5) Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer.	Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer ei lunio ar gyfer y sawl sy'n ymgymryd â rôl arwain neu reoli yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-19.

Teitl y Cymhwyster Arfaethedig	Disgrifiad
(Lefel 5) Arwain a Rheoli Gofal Plant, Dysgu, Datblygu a Chwarae: Ymarfer.	Caiff y cymhwyster hwn sy'n seiliedig ar ymarfer ei lunio ar gyfer y sawl sy'n ymgymryd â rôl arwain neu reoli yn y sector gofal plant, dysgu, datblygu a chwarae. Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio ar gyfer dysgwyr ôl-19.

Mae'r rhesymau am y penderfyniad fel a ganlyn:

Mae Cymwysterau Cymru wedi penderfynu y dylai'r cymwysterau cyfyngedig newydd gael eu cyfyngu i un ffurf yr un er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Eu bod yn darparu cynnwys, asesiadau a threfniadau sicrhau ansawdd cyson ac felly'n gwella ansawdd;
- Bod un gyfres gydlynol o gymwysterau sy'n hwyluso dilyniant o lefel 1 i lefel 5;
- Bod gofynion y drwydded i ymarfer yn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn glir i ddysgwyr, darparwyr hyfforddiant a chyflogwyr.